# YDYCH CHI'N YSTYRIED PETHAU FEL MAE DUW?

*Nodyn i'r siaradwr:*
Pwysleisiwch oherwydd ein hamherffeithrwydd, a'r cyfyngiadau sydd arnom ac oherwydd ein bod yn byw mewn byd sydd wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw, fod angen inni unioni'r ffordd 'rydym yn meddwl er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r hyn mae Duw yn ei feddwl. Byddwch yn fodlon gwneud newidiadau personol a chaniatau i Dduw ein llunio

**PAM DYLEM NI YSTYRIED PETHAU FEL MAE DUW?** (5 mun.)

Mae pawb ohonom yn teimlo'n ansicr weithiau ynglŷn â pha gwrs sydd orau i'w ddilyn

Mae ffordd dyn o feddwl yn aml wedi'i seilio ar sentiment, dyfalu, neu brofiad cyfyngedig (Diar 16:25)

Mae straen ymdopi â phroblemau bywyd wedi achosi helbulon emosiynol cynyddol ac anghyfraith

Mae angen arweiniad dibynadwy o ffynhonnell uwch arnom (Diar 3:5, 6)

Mae'r ffordd mae'r bydysawd yn gweithredu, cydbwysedd prosesau bywyd, cynllun yn y greadigaeth, yn adlewyrchu doethineb a meddwl rhagorach Duw (Rhuf 1:20)

Mae wedi gweld llwyddiannau a methiannau dyn drwy gydol hanes

Ag yntau'n Gynlluniwr dyn, fe ŵyr ein hanghenion a'n galluoedd

Mae'r Beibl yn egluro Ei ffordd ef o ystyried pethau i'n harwain ym mhob agwedd o fywyd

'Wnawn ni wrando?

**AGWEDD AT BOBL** (14 mun.)

Mae Duw yn anghymeradwyo meddwl, sgwrsio, a gweithgareddau byd dynoliaeth sydd wedi ymddieithrio oddi wrtho (Diar 2:11-15; *it*-2 1094)

Mae'n rhybuddio'i weision rhag meithrin perthynas â phobl o'r fath a rhag efelychu eu dull o fyw (Iago 4:4; 1In 2:15-17; *w*80 4/1 31; *w*80 6/15 5-7)

'Ydym ni'n cytuno?

Dangosir anghytundeb gan y rheiny sy'n ymblesera yng ngweithredoedd y cnawd, sy'n ceisio cymdeithasu bydol, sy'n caru pleser, sy'n faterol (Eseia 5:11, 12; Gal 5:19-21; *tp* 125-6; *su* 168)

Rhwystredigaethau yw canlyniadau cwrs felly

Gwelir cytundeb â ffordd Duw o feddwl mewn ffyddlondeb yn y pethau ymddangosiadol fychan (Lc 16:10; *w*80 6/15 9)

'Ydi'r byd yn dylanwadu arnom yn y ffordd 'rydym yn gwisgo ac ymdrwsio? (*it*-1 655, 1021; *w*88 8/15 17; *w*87 9/15 14-15)

'Ydi'r byd yn dylanwadu arnom o ran ymddygiad rhwng y rhywiau? (*yp* 181)

'Ydi'n ffordd ni o feddwl yn cytuno â Duw mewn materion hiliol, gwleidyddol, cymdeithasol, neu faterion eraill?

Er mwyn dod yn un o bobl Dduw, rhaid i berson ymwahanu oddi wrth y byd a newid ei ffordd o feddwl fel ei bod yn cytuno â ffordd Duw o feddwl (Eff 4:22-24; *w*86 7/1 20-1; *it*-2 305, 404)

Mae esiamplau gwych inni o'r ganrif gyntaf o rai a wnaeth newidiadau o'r fath: Pedr, Saul, Sergius Paulus, ac eraill (*om* 154-5)

Gall y gwirionedd newid pobl

Er gwaethaf cyflwr moesol y ddynoliaeth, mae Duw wedi darparu iachawdwriaeth ar gyfer y rhai sy'n fodlon newid (In 3:16)

Fe all gweithredoedd caredig i bobl fydol eu denu nhw i'r gwirionedd (1Pedr 2:12; *yb*90 8; *w*90 5/1 31; *w*85 9/15 12)

Adlewyrchwch ffordd Duw o feddwl drwy ddangos cariad a thrugaredd mewn gweithredoedd pob dydd tuag at eraill (Gal 6:10)

'Ydyn ni'n adlewyrchu meddwl Duw, a bod yn ostyngedig fodlon rhannu'r newyddion da hyd yn oed â'r rhai sy'n byw bywydau drwg, neu a ydym ni'n barnu fod rhai yn anaddas gan beidio gwneud llawer o ymdrech i'w helpu? (Mth 5:44-48; Rhuf 5:8; *w*81 7/1 4-6; *w*74 120-5)

**AGWEDD AT RIENI** (12 mun.)

Mae agwedd ''Wnes i ddim gofyn i gael fy ngeni' yn gyffredin ymhlith ieuenctid bydol

Mae Duw yn dweud wrth blant i barchu a gwerthfawrogi rhieni, a'u hesgorodd nhw a gofalu amdanynt pan oeddynt yn ifanc (Eff 6:1-3; Diar 30:11, 17; *fl* 161-8; *yp* 11-17)

Gall fod rhieni'n dal i ddarparu ar gyfer eu plant yn faterol a'u tywys nhw'n foesol ac emosiynol

Ieuenctid, 'ydych chi'n cytuno â meddwl Duw yn hyn o beth?

'Rydym yn dangos ein bod yn cytuno â Duw drwy ufuddhau i'n rhieni (Diar 23:24, 25)

Hyd yn oed os nad yw'r rhieni yn y gwirionedd, dylem barchu eu safle yn y teulu a bod yn ufudd, ar yr amod nad ydi'n golygu rhywbeth sy'n anfodloni Duw (Col 3:20; *yp* 13-16; *g*87 7/8 19)

Mae hyn yn wir hyd yn oed pan fo'r plentyn yn oedolyn (Diar 23:22)

Byddwch yn ystyriol o'ch rhieni a'u helpu nhw (1Tim 5:3, 4; *fl* 168-70; *w*90 3/1 20-1; *w*87 6/1 13-18)

Mae anrhydeddu rhieni yn cynnwys gofalu'n gariadus amdanynt pan fônt yn hen yn ôl y galw (*it*-2 782)

**AGWEDD AT WAITH** (10 mun.)

Mae llawer yn dirmygu gwaith, yn arbennig gwaith caled corfforol

Mae rhai yn gwrthod gweithio, gan ddewis byw ar bwrs y wlad

Mae Duw yn weithiwr cynhyrchiol (Salmau 104:24; In 5:17; *w*82 8/1 12-13)

'Ydym ni'n cytuno ag agwedd Duw at waith?

Rhaid cydnabod urddas gwaith; ac osgoi diogi (Diar 18:9; 1Thes 4:11)

Peidiwch â bodloni gwneud dim ond y lleiafswm na bod yn ddifater, ond yn hytrach ymegnïwch a chael boddhad o wneud gwaith da a defnyddiol (Preg 3:13, 22; *g*83 9/8 4-7; *w*72 487)

Mae diwydrwydd a gwaith caled yn dod â budd a lles (*g*90 6/8 24-5; *g*88 2/8 31; *g*83 10/22 21-3; *it*-2 119)

Rhaid bod yn gytbwys ynglŷn â gwaith seciwlar (Preg 4:4, 6; *g*93 6/22 9-11; *w*87 10/1 6)

Daw gwaith caled â boddhad parhaol a hapusrwydd pan ganolwn ein bywydau ar wneud ewyllys Duw (*w*89 7/15 4-7)

Mae Duw wedi rhoi gwaith i'w weision ei gyflawni 'nawr, pregethu'r newydd da (Mth 24:14; 28:19, 20)

Oes gennych chi gyfran frwdfrydig yn hyn â'ch holl galon? (*w*87 2/1 15-20; *g*83 9/8 8-9; *w*78 6/1 27-9)

Daw gwaith fel hyn â gwir adnewyddiad (*w*89 7/15 19-20)

**PARHEWCH I WEITHREDU YN UNOL Â FFORDD DUW O YSTYRIED PETHAU** (4 mun.)

Daw bendithion yn sgïl meddwl a gweithredu yn ôl Gair Duw

Daw â ni i harmoni â'r ffordd y'n cynlluniwyd ni (Gen 1:26, 27)

Golyga berthynas mwy heddychlon ag eraill, teuluoedd unedig, bodlonrwydd wrth weithio

Mae angen amser i addasu'n ffordd o feddwl a gwneud cynnydd (Rhuf 12:1, 2; *w*90 11/1 29-31)

Mae angen newidiadau i gychwyn, ond parhewch â'r ymdrech! (Eff 4:23, 24)

Mae Duw 'nawr yn llunio pobl ar gyfer bywyd mewn byd newydd

'Ydych chi'n ymateb yn fodlon gan wneud newidiadau pan fo angen?

Gall cyfarfodydd, astudio personol, cymdeithasu cyflawn, helpu

Byddwch yn effro bob amser i arwyddion o sut mae Duw yn ystyried pethau, gan ddod â'ch meddwl chi fwy-fwy i gytundeb ag ef

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)



© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania